**Cyfarfod Llawn 2002 – 2003 (10)**

**Dydd Iau, 13 Mehefin 2002**

## PLEIDLEISIAU A THRAFODION

**Dechreuodd y Cyfarfod am 1.15pm**

**Cwestiynau i Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
Atebwyd y 7 cwestiwn cyntaf.

**1.35pm**
**Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes**
Atebwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Ni ofynnwyd cwestiwn 1. Tynnwyd cwestiwn 4 yn ôl.

**2.02pm**
***Cynigiodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad gynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 i ddwyn ymlaen yr eitem ganlynol*.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig trefniadol**

O blaid 32; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 32

**Derbyniwyd y cynnig trefniadol.**

**Ethol Phil Williams i fod yn Gyfarwyddwr Canolfan Ewropeaidd Cymru**
***NNDM1081 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Yn penodi Phil Williams yn lle Ieuan Wyn Jones i fod yn gyfarwyddwr Canolfan Ewropeaidd Cymru.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig**

O blaid 33; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 33

**Derbyniwyd y cynnig.**

**2.03pm**
**Dadl ar y Strategaeth i Ofalwyr**
***NDM1076 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

1. Yn croesawu'r cynnydd sylweddol a wnaed drwy Gynllun Gweithredu Strategaeth Cynhalwyr Cymru o ran gwella a hybu iechyd a lles cynhalwyr a'r rheini y maen nhw'n gofalu amdanynt

2. Yn cydnabod cyfraniad y Cynllun i brif themâu a gwerthoedd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru

3. Yn cefnogi'r cynnig i barhau i ddatblygu'r Strategaeth Cynhalwyr a'r Cynllun Gweithredu

4. Yn ailbwysleisio'r cyfraniad a wnaed gan wirfoddolwyr unigol a grwpiau gwirfoddol i'r strategaeth hon.

Gellir gweld y Strategaeth Cynhalwyr a'r Cynllun Gweithredu drwy glicio isod:

*Gofal i Gynhalwyr - Strategaeth Cynhalwyr Cymru - Cynllun Gweithredu - Mehefin 2000*

http://www.wales.gov.uk/subisocialpolicy/content/pdf/carers_e.pdf English

http://www.cymru.gov.uk/subisocialpolicy/content/pdf/carers-w.pdf Welsh

*Yr Adroddiad Cyntaf - Gofal i Gynhalwyr - Strategaeth i Gymru - Mehefin 2002*

http://www.wales.gov.uk/subisocialpolicy/content/carers/caring1-e.pdf English

http://www.cymru.gov.uk/subisocialpolicy/content/pdf/carers-w.pdf - welsh

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd Pwynt 3:
', gan gydnabod bod cynhalwyr yn arbed symiau mawr i bwrs y wlad, a bod angen ymrwymiad arnynt felly ynghylch cyllid diogel yn y tymor hir.'

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
'Yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau bod y Strategaeth Cynhalwyr yn rhan annatod o strategaethau a pholisïau eraill y Cynulliad.'

**Gwelliant 3 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
'Yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi derbyn mewn egwyddor y dylid mynd ati'n flynyddol i gasglu'r data ar nifer yr Asesiadau a gynhelir o Anghenion Cynhalwyr.'

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O blaid 35; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 35

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2**

O blaid 35; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 35

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3**

O blaid 35; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 35

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Y cynnig fel y'i diwygiwyd**

O blaid 35; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 35

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

**2.47pm**
**Dadl Fer: *NDM1075* Eleanor Burnham (Gogledd Cymru): Ailagor y rheilffordd o Riwabon i Abermo.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 3.08pm**

***************************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 18 Mehefin 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

**Dogfennau a osodwyd ar 13 Mehefin 2002**

Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd: Mwyhau'r Buddion i Gymru - LD1456

**Dogfennau a osodwyd ar 11 Mehefin 2002**

The Pesticides (Maximum Residue Levels in Crops, Food and Feeding Stuffs) (Amendment) Regulations 2002 - LD1450. Dim copi Cymraeg ar gael.
Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Apelau) (Cymru) 2002 - LD1451
The Wildlife and Countryside (Sites of Special Scientific Interest, Appeals) (Wales) Regulations 2002 - Regulatory Appraisal - LD1452. Dim copi Cymraeg ar gael.
Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2002 - LD1453
Gorchymyn Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) 2002 - LD1454

**Dogfennau a osodwyd ar 10 Mehefin 2002**

European and External Affairs Committee: Annual Report 2001-2002 - LD1455. Dim copi Cymraeg ar gael.
Y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig: Adroddiad ar TGCh yng Nghymru Wledig - LD1443